

# Y PWYLLGOR ADOLYGU ARCHWILIO A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

12 Chwefror 2020

Yn bresennol: Y Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)  
Dr R Heath Davies, Mr G Jones, y Cynghorydd P Kidney, y  
Cynghorydd R Owens a'r Cynghorydd M Williams.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am - 11.50am)

## 1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol gan y  
Cynghorydd P Baker, Mrs S Hoss a'r Cynghorydd M James.

## 2. Datgeliadau

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

## 3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2019 i'w  
cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a  
gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2019.

## 4. Y Grŵp Iechyd a Diogelwch: adroddiad am gyfarfod

Ystyriodd yr Aelodau yr adroddiad am gyfarfod y Grŵp Iechyd a  
Diogelwch a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2019.

Gofynnodd yr Aelodau a ellid darparu rhagor o wybodaeth ynghylch  
digwyddiadau RIDDOR, fel y gallai'r Aelodau fod yn dawel eu meddwl  
bod y camau priodol wedi'u cymryd a gwersi wedi'u dysgu.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad am gyfarfod y Grŵp Iechyd a  
Diogelwch a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2019.

## 5. Adroddiad Archwilio Mewnol 2019/20

Croesawodd y Cadeirydd Mr Jonathan Maddock o TIAA i'r cyfarfod.  
Esboniodd fod yr adroddiad yn ffrwyth gwaith a gwblhawyd ar sail Bloc 2  
cynllun archwilio gweithredol 2019/20 a gymeradwywyd yn flaenorol gan  
y Pwyllgor, ac roedd yn ymdrin â meysydd Rheoli Risg, Rheolaethau  
Ariannol Allweddol (Trefniadau Bancio, Trysorlys / Buddsoddiadau ac  
Asedau Sefydlog), Iechyd a Diogelwch ac Adolygiad Gweithredol -  
Parcmyn. Nodwyd bod Asesiad Rhesymol wedi'i ddarparu ar gyfer pob  
un ac eithrio Iechyd a Diogelwch a oedd wedi cael Asesiad Cyfyngedig.



Ystyriodd yr Aelodau bob un o'r argymhellion, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhai â sgôr blaenoriaeth 1 neu 2. O ran y materion lechyd a Diogelwch a amlygwyd yn yr adroddiad, dywedodd y Rheolwr Adnoddau Dynol fod y gweithdrefnau gadael mewn achos o dân a monitro yn cael eu hailddrafftio ac y byddai'r rhain yn cynnwys driliau tân ddwywaith y flwyddyn. Roedd yr holl bwyntiau eraill a godwyd yn cael sylw.

Esboniodd y Rheolwr Cyllid y bwriadwyd dod â'r adroddiad i gyfarfod blaenorol y Pwyllgor, ond oherwydd materion technegol ni ddaeth i law mewn pryd. Roedd y broblem hon bellach wedi'i datrys.

Diolchodd yr Aelodau i'r Archwilwyr am adroddiad trylwyr a defnyddiol. Fe wnaethant nodi, er ei fod yn adolygu camau gweithredu y cyfeiriwyd atynt mewn adroddiadau blaenorol, eu bod am sicrhau bod y rhain yn cael eu gweithredu'n brydlon, a gofynnwyd iddynt roi Cynllun Gweithredu ar gyfer unrhyw gamau Blaenoriaeth 1 a nodwyd gan Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod i bob cyfarfod o'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad, ond y dylid dod â Chynllun Gweithredu ar gyfer unrhyw gamau Blaenoriaeth 1 a nodwyd gan Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod i gyfarfodydd nesaf y Pwyllgor, a chyfarfodydd y dyfodol.

## **6. Adroddiad Perfformiad ar gyfer y Cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2019**

Dilynodd yr adroddiad strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2019/20. Roedd hyn yn dilyn dull Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gyda saith amcan llesiant, ac roedd adran ychwanegol yn darparu gwybodaeth lywodraethu gyffredinol. Yn yr adroddiad roedd gwybodaeth am berfformiad hyd at 31 Rhagfyr 2019 ac roedd yn cynnwys ystadegau chwarter 1, 2 a 3 (Ebrill – Rhagfyr) ar gyfer rhai setiau data.

Esboniodd y Cydgysylltydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth yr adroddiad i'r Aelodau, gan dynnu sylw at feysydd yn ymwneud â'r Cynllun Datblygu Lleol, cynllunio a gorfodi, y wefan newydd, hyfforddiant Parkwise, Walkability, Addysg, ymgysylltu â phobl ifanc ac lechyd a Diogelwch.

Ar ôl diolch i'r swyddog am adroddiad cynhwysfawr, gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynghylch nifer o'r meysydd a amlygwyd. Yn benodol, roedd rhai Aelodau'n anghytuno â'r sgôr RAG goch mewn perthynas â chanran y penderfyniadau a wnaeth yr Aelodau yn groes i gyngor swyddogion gan y teimlwyd bod hyn yn adlewyrchiad o ddemocratiaeth. Atebodd y swyddog fod y Mesur a'r Targed yn cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru a'i bod yn ofynnol iddynt feincnodi yn erbyn Awdurdodau eraill.



## **NODWYD**

### **7. Llythyr Archwiliad Blynyddol 2018-19**

Roedd llythyr Archwiliad Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar ei gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio. Cyflwynwyd y llythyr, a oedd yn cadarnhau fod yr Awdurdod wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau mewn perthynas ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau, i'r Aelodau er gwybodaeth.

Nodwyd bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud sylwadau ar sefyllfa ariannol gyffredinol yr Awdurdod yn ei lythyr, gan dynnu sylw at y ffaith bod y cronfeydd wrth gefn wedi cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i grantiau ychwanegol annisgwyl gan Lywodraeth Cymru a dderbyniwyd ar ddiwedd y flwyddyn. Cymerodd rhai Aelodau hyn fel datganiad o rybudd gan yr Archwilydd ynghylch lefel cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod, ond dywedodd y Rheolwr Cyllid fod hyn wedi'i amlygu yng nghyllideb yr Awdurdod a ystyriwyd yng nghyfarfod yr Awdurdod yr wythnos flaenorol. Yn benodol roedd ei adroddiad wedi cynnwys graff a oedd yn cymharu hyfywedd â chronfeydd wrth gefn gyda chefnogaeth arian parod gan ddangos effaith grant llinell wastad ar gyllideb yr Awdurdod dros y 5 mlynedd nesaf a fyddai'n gweld y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn cael eu disbyddu.

Gofynnodd un Aelod am y ffioedd Archwilio a dywedwyd wrtho eu bod oddeutu £44,000 ar gyfer archwiliadau perfformiad ac ariannol. Gwnaed sylwadau ynghylch cyfran cyllideb yr Awdurdod a wariwyd ar y ffioedd hyn, ond gofynnodd yr Aelodau i bwy a phryd, ac awgrymwyd y dylid cyflwyno sylwadau pellach ar lefel uwch, i'r Dirprwy Weinidog o bosibl.

## **NODWYD.**

### **8. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019/20**

Soniwyd bod Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft yr Awdurdod wedi'i atodi i'r adroddiad, a gofynnwyd am sylwadau'r Aelodau arno.

Roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cynnwys fframwaith llywodraethu'r Awdurdod o ran ei strwythurau gwneud penderfyniadau, yn ogystal â'r camau a gymerwyd mewn perthynas â'r materion llywodraethu sylweddol a nodwyd yn y flwyddyn flaenorol ac felly roedd yr adroddiad hefyd yn nodi camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Roedd y Datganiad hefyd yn cynnwys adolygiad o effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu'r Awdurdod, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol, yn seiliedig ar egwyddorion Cod Llywodraethu Corfforaethol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).



Soniwyd yn y cyfarfod fod rhai sylwadau wadi cael eu gwneud gan yr Aelodau cyn y cyfarfod mewn perthynas â chreu'r Pwyllgor Cynorthwyo a Datblygu Aelodau a'r hyfforddiant a oedd wedi'i gynnal ar y cod ymddygiad, a byddai'r rhain yn cael eu cynnwys. Roedd yr awgrymiadau pellach a wnaed yn y cyfarfod yn cynnwys cais am amserlen ar gyfer mynd i'r afael â'r camau a nodwyd yn y tabl o faterion llywodraethu sylweddol yn ystod y flwyddyn i ddod. O ran y mater o ymateb i effaith Brexit, awgrymwyd y dylid mwy dylai eglurder fod ar gael nawr i ddiweddarau'r camau sydd i'w cymryd.

## **NODWYD.**

### **9. Adroddiad ar Berfformiad y Gyllideb - 9 Mis hyd at Ragfyr 2019**

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad y gyllideb am y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2019. Darparwyd y gyllideb refeniw net fanwl a oedd yn dangos bod y gwariant gwirioneddol ac ymrwymedig yn £3,351k, sef £51k o dan y gyllideb a broffiliwyd, ac roedd y rhesymau dros yr amrywiannau wedi'u nodi yn yr adroddiad. Dywedodd y Rheolwr Cyllid fod y ffigurau cyllideb net ar gyfer 2019/20 a ddangosir yng ngholofn gyntaf tabl ei adroddiad yn anghywir, ond roedd y naratif yn gywir.

Dywedodd un Aelod fod ffigurau'r maes parcio ar gyfer Saundersfoot i lawr flwyddyn ar ôl blwyddyn, a thybiwyd mai'r rheswm am hyn oedd nifer y tocynnau tymor a werthwyd. Dywedodd y Rheolwr Cyllid fod ffigurau gwerthiant y tocynnau tymor yn cael eu cynnwys yn llinell gyllideb gweithrediadau'r maes parcio ac nad oeddent yn cael eu dadgyfuno fesul safle. Credai'r Cadeirydd fod yn rhaid i'r Awdurdod gydbwyso anghenion ymwelwyr â'r rhai sy'n byw yn y gymuned o ran y rhai sy'n defnyddio ei feysydd parcio a'r refeniw a gynhrychir.

Soniwyd bod nifer o eitemau gwariant heb eu cyllidebu wedi effeithio ar Ragolwg Refeniw 2019/20, gan gynnwys staff tymhorol ychwanegol, prynu offer talu ac arddangos a gwaith heb ei gynllunio ar gynnal a chadw adeiladau. Lliniarwyd hyn gan arbedion o oddeutu £40k. Rhagwelwyd hefyd y byddai cyfanswm yr incwm yn fwy na'r hyn a gyllidebwyd ac roedd hynny, gyda'i gilydd, yn golygu bod y rhagolwg refeniw cyfredol yn sefyllfa o adennill costau ar gyfer y flwyddyn yn unol â'r gyllideb wreiddiol.

Aeth yr adroddiad rhagddo i amlinellu sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf, a estynnwyd oherwydd yr arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, gan gynyddu o £1.1m i £1.2m yn sgil hynny. Roedd yr adroddiad yn nodi manylion y prosiectau a'r offer sydd i'w hariannu.

Yn olaf, cyfeiriodd yr adroddiad at y sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod. Roedd disgwyl i Gronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol ostwng i



£1003k, roedd disgwyl i'r Cronfeydd Wrth Gefn Neilltuedig ostwng £1,037k i £2914k, er bod rhywfaint o'r gwariant ar brosiectau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn debygol o groesi drosodd i flwyddyn ariannol 2010/21 ac o ganlyniad byddai lefelau'r cronfeydd wrth gefn yn cynyddu mewn perthynas â'r elfen honno o'r cronfeydd a oedd heb eu gwario ar 31 Mawrth 2020. Roedd disgwyl hefyd i Dderbyniadau Cyfalaf ostwng i £358k ar ddiwedd 2019/20 gan eu bod wedi cael eu defnyddio i ariannu amrywiol brosiectau cyfalaf.

## **NODWYD.**

[Cyflwynodd y Cynghorydd M Williams ei ymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod ar y pwynt hwn.]

### **10. Cofrestr Risg**

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y gofrestr risg ddiweddaraf, a adolygwyd gan y Tîm Rheoli a'r Tîm Arweinyddiaeth. Amlygwyd y tueddiadau cynyddol a gostyngol mewn risgiau yn y Gofrestr. Ymddiheurodd y Rheolwr Cyllid nad oedd rhai diweddariadau y gofynnwyd amdanynt yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor wedi cael eu gweithredu a soniwyd y byddai hyn yn cael ei gywiro yn yr adroddiad i'r Pwyllgor nesaf.

Awgrymodd un Aelod fod y penderfyniad a wnaed mewn cyfarfod diweddar o'r Awdurdod i ddarparu cyllid ar gyfer y Sefydliad Rheoli Cyrchfannau newydd yn Sir Benfro yn risg ariannol ac yn risg o ran enw da. Cytunodd y swyddog i ychwanegu hyn at y Gofrestr.

Gofynnodd yr Aelodau hefyd a allent gael gwybodaeth am y camau gweithredu mewn perthynas â chlefyd coed ynn a dywedwyd wrthynt y byddai adroddiad yn cael ei wneud i gyfarfod o'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol yn ystod y misoedd nesaf, ac y byddai copïau o'r papurau hyn yn cael eu hanfon at Aelodau'r Pwyllgor Adolygu Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol er gwybodaeth.

## **NODWYD**

### **11. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwella Parhaus**

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion yr oedd y Pwyllgor yn awyddus i'w dirprwyo i'r Grŵp Gwella Parhaus i'w hystyried.

### **12. Unrhyw Fater Arall**

#### **a) Darpariaeth Archwilio Mewnol**

Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Rheolwr Cyllid fod Darpariaeth Archwilio Mewnol yr Awdurdod wedi'i gontractio i Gateway Assure tan fis Mawrth 2020, ond roedd TIAA wedi cymryd y busnes drosodd yn hwyr yn 2019.



Byddai proses dendro dau gam mewn perthynas â darpariaeth Archwilio Mewnol yn y dyfodol yn cael ei chychwyn yr wythnos hon, lle byddai cwmnïau addas yn cael eu rhoi ar restr fer a byddai'r Aelodau'n rhan o'r broses benodi. Byddai manylion hyn yn cael eu darparu maes o law.

## **NODWYD.**

### **b) Yswiriant**

Atgoffwyd yr Aelodau fod tri Pharc Cenedlaethol Cymru wedi trefnu i gaffael eu hyswiriant ar y cyd, gyda'r trefniadau cyfredol yn dod i ben ym mis Mawrth eleni. Y cyngor a dderbyniwyd gan froceriaid yr Awdurdod, Marsh UK, oedd bod y marchnadoedd yn heriol ar hyn o bryd, ac os byddai'r Awdurdod yn mynd allan i dendr llawn, y byddai'r premiymau'n debygol o godi'n sylweddol. Fe wnaethant argymhell y dylid ymestyn y trefniadau presennol am ddeuddeg mis. Gan fod hyn yn mynd yn groes i Safonau Ariannol yr Awdurdod, byddai adroddiad yn cael ei wneud i gyfarfod nesaf yr Awdurdod.

Cytunodd yr Aelodau fod hyn yn ymddangos yn ffordd synhwyrol ymlaen.

## **NODWYD.**

